OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1166

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 ac, yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (9), deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

(2) Daw rheoliad 10(2) i rym yn union ar ôl i adran 191(**1**) o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007(**2**) ddod i rym.

(3) Daw rheoliad 25(4)(b), (c)(i) a (d) i rym yn union ar ôl i adran 118(**3**) o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016(**4**) a pharagraffau 19 ac 20 o Atodlen 7 iddi ddod i rym.

(4) Daw rheoliad 25(5) i rym yn union ar ôl i adran 120(**5**) o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 8 o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(5) Daw rheoliad 25(6) i rym yn union ar ôl i adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 9 o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(6) Daw rheoliad 25(9) i rym yn union ar ôl i adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 11 o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(7) Daw rheoliad 25(10) i rym yn union ar ôl i adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 12 o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(8) Daw rheoliad 25(11)(a) i rym yn union ar ôl i adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 11 o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(9) Daw rheoliad 25(11)(b) i rym yn union ar ôl i adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a pharagraff 13(3) o Atodlen 8 iddi ddod i rym.

(10) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

(**1**) Mae adran 191 yn mewnosod adran 60A yn Neddf Llysoedd Sirol 1984 (p. 28).
(**2**) 2007 p. 29.
(**3**) Mae adran 118 yn rhoi effaith i Atodlen 7 (tenantiaethau diogel etc.: diddymu tenantiaethau am oes yn raddol).
(**4**) 2016 p. 22.
(**5**) Mae adran 120 yn rhoi effaith i Atodlen 8 (olynu i denantiaethau diogel a thenantiaethau cysylltiedig).